# CYLLID TORFOL ...canllaw

**ARLOESI GWYNEDD WLEDIG**

Mae Cyllido torfol yn gyfle sylweddol i grwpiau cymunedol ledled Gwynedd godi arian ... ac yn ei dro, darganfod ffyrdd newydd o ymdrin â heriau cymdeithasol, a chael mwy o bobl i gyfranogi mewn prosiectau cymunedol.

Mae Cyllido torfol yn ffordd o ariannu prosiect neu fenter trwy i LAWER o bobl fuddsoddi swm BACH o arian, fel arfer trwy wefan.

Os ydych eisiau codi arian ar gyfer eich busnes cymunedol, grŵp cymunedol, menter gymdeithasol neu fenter, yna darllenwch ein canllaw ac awgrymiadau ar beth i'w ystyried...

## * Ein Prosiectau Cyllido Torfol...

Buom yn cydweithio ar ymgyrch cyllido torfol i godi arian ar gyfer dau gynllun ynni cymunedol - Ynni Ogwen ac Ynni Padarn Peris. Codwyd arian trwy gynnig cyfranddaliadau cymunedol. Buom yn cefnogi'r ymgyrch farchnata, a chynhyrchwyd ffilm hyrwyddo.




YnNi Padarn Peris

**Who are we?**
A group of local volunteers developing energy projects for the benefit of our community.
Community benefit is central to us and a large part of the profit will be invested locally.

**The Society ...**
YPP is a Society for the Benefit of the Community. It's aim is to serve you and use the profit to realise your aspirations.

**Our first Project ...**
We will create a micro-hydro on Afon Goch in Llanberis. We need to raise up to £250,000 to complete the work.


**Investing ...**
You will get about 5% on your investment – a good return! £250 is the minimum. The more we raise through selling shares, the less we'll need to borrow from the bank!

**AN INVITATION ...**
Come to the launch at The Electric Mountain, Llanberis on the 27th of February at 10a.m.
The share offer will be available until the 25th April.

For more information, visit ...
www.ynnipadarnperis.org


✓ Mae'r swm o arian a godwyd trwy gyllido torfol wedi tyfu'n aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf.

> “Mewn hinsawdd lle mae llai o arian cyhoeddus ar gael ar gyfer grantiau i ariannu mentrau cymunedol, dangosodd y prosiect ei bod hi'n bosibl dod o hyd i ffyrdd newydd o godi arian trwy gyllido torfol.”
>
> AARON WARREN
> SWYDDOG ARLOESI GWYNEDD WLEDIG



Roedd angen cyfanswm cyfunol o £709,100 i ariannu'r ddau brosiect hydro...

...llwyddodd y ddwy gymuned i gyflawni eu targedau o fewn 6 mis.



peilota...dysgu...rhannu

ARLOESI GWYNEDD WLEDIG | MENTER MÔN

DYDDIAD DIWEDD Y PROSIECT Chwefror 2016
RHEOLWR Y PROSIECT Zoe Pritchard
Pecyn Cymorth Arloesi Gwynedd Wledig #001

ARLOESI GWYNEDD WLEDIG

# camau ar gyfer... CYLLIDO TORFOL llwyddiannus




## Gosodwch Eich Stondin

1.

- Mae adeiladu a chynnal ymddiriedaeth darpar fuddsoddwyr yn allweddol! Bydd angen i chi fod yn broffesiynol ym mhob gweithgaredd rydych chi'n ei wneud...o frandio, i ddigwyddiadau, i'ch cyfathrebiadau ar-lein, ayb.
- Cyfathrebwch eich cynnig yn glir...beth yn union yw'r prosiect, a sut mae pobl yn cymryd rhan?

*"Roedd y ffordd y cyflwynwyd yr ymgyrch yn ddylanwadol iawn dros y penderfyniad i fuddsoddi. Rhaid i'r ymgyrch ddangos awdurdod er mwyn creu ymddiriedaeth...a dweud wrth fuddsoddwyr posibl beth sydd yn y prosiect iddyn nhw!"*

- Ymchwiliwch pa lwyfan cyllido torfol sydd fwyaf addas ar gyfer eich prosiect.
- Chwiliwch am lwyfan a fydd yn eich helpu i lansio'ch ymgyrch a chyrraedd y cefnogwyr a'r buddsoddwyr cywir er mwyn cyrraedd eich targed ariannu.

££

## Cynnal Digwyddiad Lansio



2.

- Trefnwch ddigwyddiad i ddweud wrth bobl am eich prosiect a'r cyfle rydych chi'n ei gynnig iddynt.
- Cynhaliwch eich digwyddiad mewn lleoliad lleol, apelgar, ar adeg pan fydd llawer o bobl yn gallu dod draw.
- Rhestrwch help diddanwyr a siaradwyr gwybodus sy'n angerddol am eich prosiect. Yn ein digwyddiad lansio ni, anerchodd yr Aelod Cynulliad Alun Ffred Jones y gynulleidfa, gan ganmol gweledigaeth y cynlluniau.
- Gwahoddwch bobl i'r lansiad trwy gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy gyfryngau traddodiadol - posteri, taflenni, ayb.
- Ffilmiwch a thynnwch luniau proffesiynol o'ch lansiad fel y gallwch gyrraedd y mwyaf posibl o fuddsoddwyr ar-lein.
- Trydarwch a darlledwch yn fyw ar y cyfryngau cymdeithasol, i ymgysylltu a lledaenu'r gair.

←Sganiwch i wylio ein ffilm promo ar gyfer Ynni Ogwen




## Hyrwyddo, Hyrwyddo, Hyrwyddo

3.

- Hysbysebwch eich prosiect ar y cyfryngau cymdeithasol. Ein ffilmiau promo byr ni oedd y cyfrwng mwyaf poblogaidd, gyda chyfanswm o 65,000+ wedi eu gwylio!
- Rhwng 8 - 10pm oedd yr amser y dydd mwyaf poblogaidd o ran ffigyrau gwylio ein hysbysebion ar-lein.
- Sicrhewch fod gennych gynnwys o ansawdd da ac apêl weledol yn eich ffilmiau promo.
- Tagiwch bobl sydd yn y lluniau prosiect i annog ail-drydaru / rhannu.
- Facebook oedd y llwyfan mwyaf poblogaidd o bell, gyda'r mwyaf o gyrhaeddiad.
- Cyrhaeddodd Instagram y gynulleidfa ieuengaf...felly parwch eich demograffig prosiect yn dda gyda'ch cyfryngau cymdeithasol.
- Ysgrifennwch olygyddol da er mwyn cael sylw'r wasg leol.



Edrychwyd ar ein ffilmiau 65,063 o weithiau

Roedd 90% o fuddsoddwyr yn lleol

**Awgrym 1:** Mae'n bwysig creu fideo effeithiol a phroffesiynol i farchnata ymgyrch cyllido torfol gan y bydd hon yn ymgysylltu'n uniongyrchol â gwylwyr a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am y prosiect.

**Awgrym 2:** Mae llawer o wefannau gwahanol ar gael i'w defnyddio ar gyfer cyllido torfol, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn ymchwilio iddynt ac yn dewis un sy'n addas i'ch prosiect (e.g. Kickstarter, Indiegogo, The Funding Circle, Crowdcube, Seedrs). Yn yr achos hwn, defnyddiwyd Microgenius gan fod hwn yn llwyfan addas ar gyfer codi cynigion cyfranddaliadau cymunedol. (http://communityshares.org.uk/share-offers/microgenius)

✓Helpodd y prosiect i godi ymwybyddiaeth a diddordeb ynghylch sut y gall unigolion a theuluoedd fuddsoddi'n uniongyrchol yn eu cymunedau.

Am fwy o wybodaeth am y prosiect hwn ewch i

www.arloesigwyneddwledig.com
@ArloesiGwyneddWledig
@ArloesiGwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

NDA Nuclear Decommissioning Authority

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru Welsh Government